

YSGOL TRYFAN

CEFNOGI, YSBRYDOLI - YN DEULU



Llawlyfr

2024 – 2025

*Dewch i
Dryfan*

Ysgol Tryfan
Lôn Powys
Bangor
Gwynedd
LL57 2TU

 (01248) 352633

swyddfa@tryfan.ysgoliongwynedd.cymru

www.ysgoltryfan.org

Tudalen

Cynnwys

2	Beth sydd gan Ysgol Tryfan i'w gynnig?
3	Blwyddyn 7 2024
4	Sylwadau gan ddisgyblion Blwyddyn 7 Medi 2024
5	Polisi Iaith yr Ysgol
6 - 7	Trefniadau Ysgol
7	Grwpio Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
7 - 8	Cynnydd Disgyblion
9	Mwy am ddarpariaeth Ysgol Tryfan
9 - 10	Arweiniad Gyrfaol
11 - 12	Gwersi Offerynnol a Gwaith Cartref
12	Trefniadau Amser Cinio
13	Gweithgareddau Allgyrsiol
13 - 14	Gwisg Ysgol
14 - 15	Offer ac Absenoldebau Disgyblion
16	Calendr yr Ysgol 2025/26
17	Gweithdrefnau Delio Gyda Chwynion
18	Amddiffyn a Diogelu Plant
19 - 20	Staff Ysgol Tryfan
20	Llywodraethwyr Ysgol Tryfan
21	Datganiad Cenhadaeth Ysgol Tryfan

Ysgol Gyfun Cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr 11-18 oed yn gwasanaethu Bangor a'r ardal yw Ysgol Tryfan. Ar hyn o bryd ceir 518 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.

Beth sydd gan Ysgol Tryfan i'w gynnig?

- Addysg ddwyieithog o ansawdd mewn awyrgylch Gymraeg.
- Darpariaeth a safonau cyson dda dros nifer o flynyddoedd o ran TGAU a Safon Uwch.
- Ysgol cymharol fechan gyda'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn trin pob un fel unigolyn.
- Ysgol sydd yn rhoi pwyslais ar feithrin cysylltiadau gyda rhieni.
- Ysgol sydd yn rhoi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu y tu allan i'r dosbarth.



Blwyddyn 7 Medi 2024



Yr hyn sydd bwysicaf i ni yn ystod yr wythnosau cyntaf ydy bod ein disgyblion yn hapus ac yn setlo yma yn Ysgol Tryfan. Mae yma awyrgylch gartrefol, braf a bydda i, y tiwtoriaid a'r holl athrawon yn ceisio sicrhau bod y plant yn trosglwyddo o'r cynradd mor rhwydd â phosib'.

Miss Shiwan Gould, Pennaeth Blwyddyn 7



Dosbarthiadau Blwyddyn 7 – Medi 2024

Dosbarth 7T



Dosbarth 7R



Dosbarth 7Y



Disgyblion Dedwydd Dyma sylwadau gan rai o'r disgyblion a ddaeth atom i flwyddyn 7 Medi 2024:

Fy hoff beth am Ysgol Tryfan yw fy ffrindiau!

Jac Williams (Ysgol Cae Top)

Dwi'n mwynhau fy ngwersi oherwydd mae'r athrawon yn fy helpu gyda'r gwaith. Mae'r gwersi yn hwyl! Mi gawsom amserlen ar ein bore cyntaf er mwyn ein helpu i ffeindio dosbarthiadau. Mae yna lot o glybiau fel pêl-droed a rygbi!

Cameron Holland (Ysgol Hiracl)

Cyn dechrau Ysgol Tryfan, roeddwn i yn ofnadwy o nerfus ond erbyn amser cinio roeddwn yn hapus! Mae'r athrawon yn ofnadwy o glên ac yn barod i helpu. Roeddwn yn poeni na fyddwn yn gwneud ffrindiau, ond mae pawb mor garedig - a rwan dwi'n ffrindiau hefo lot o bobol! Roeddwn hefyd yn ofn mynd ar goll, ond mae'r ysgol yn fach a mae'n hawdd ffeindio bob dim! Fy hoff wersi yw Gwyddoniaeth a Dyniaethau oherwydd dwi wrth fy modd yn dysgu pethau newydd!

Lois Alaw Hughes (Ysgol Gynradd Llanfairpwll)

Mae Ysgol Tryfan yn hwyl. Rydym wedi bod ar daith i Glan Llyn. Fy hoff wersi yw Cymraeg, Saesneg ac Addysg Gorfforol. Roeddwn yn teimlo'n eithaf nerfus ar fy niwrnod cyntaf, ond erbyn hyn rwy'n edrych ymlaen i ddod i'r ysgol.

Oliver Richards (Ysgol y Garnedd)

Fy hoff wers yn Ysgol Tryfan yw Addysg Gorfforol, mae'r athrawon yn grêt a rydym yn cael profiadau newydd. Roeddwn yn poeni byddai gormod o waith cartref, ond dwi'n gallu ymdopi, er bod rhai darnau gwaith cartref yn rhoi her i mi. Ar y diwrnod cyntaf, mi aethon i'r neuadd, cawsom amserlen a cwrdd â'n tiwtor cofrestru. Mae amser egwyl yn grêt - rydych yn cael chwarae pêl-droed, eistedd ar feinciau i gael sgwrs neu greu lluniau. Mae amser cinio yn grêt hefyd - rydych yn cael mynd i'r gampfa, a chwarae pêl-fasged.

Harri Williams (Ysgol y Garnedd)



Fy hoff beth am Ysgol Tryfan yw'r athrawon. Mae'r disgyblion i gyd yn glên hefyd!

Kate Evans (Ysgol Tregarth)

Cyn dod i Ysgol Tryfan mi oeddwn yn poeni fyswn i methu ffeindio fy nosbarthiadau. Ond dydi o ddim yn anodd o gwbl, ac mae'r athrawon yn eich helpu. Gwyddoniaeth, Drama a Chymraeg yw fy hoff bynciau. Mae'r athrawon i gyd yn glên ac mae'r bwyd yn anhygoel! Cyn dod i Ysgol Tryfan mi oeddwn yn siarad llawer o Saesneg, ond nawr mae fy Nghymraeg wedi gwella.

Nansi Williams (Ysgol y Felinheli)

Fy hoff wers yw Dyniaethau oherwydd rwyf wedi dysgu llawer o ffeithiau newydd nad oeddwn yn gwybod o'r blaen. Mae'r athrawes bob tro yn gwrandao arna i ac yn fy helpu os dw i angen cymorth efo'r gwaith. Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd - rhai o ysgolion cynradd gwahanol i mi.

Mia-Haf Jones (Ysgol y Garnedd)



Beth yw Polisi Iaith yr Ysgol?

Sefydlwyd Ysgol Tryfan ym 1978 i gynnig addysg ddwyieithog i gylch Bangor a hynny mewn awyrgylch naturiol Gymraeg. Cymraeg yw iaith weinyddol ac iaith swyddogol yr ysgol. Nod yr ysgol yw datblygu disgyblion fydd yn gallu mynegi eu hunain a thrafod eu gwaith yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. **Credwn fod dwyieithrwydd yn sgil hanfodol ac yn hawl i bob plentyn yng Nghymru.**

Ni ddylai'r ffaith fod Cymraeg disgybl yn wannach neu ei fod yn dod o gartref di-Gymraeg rwystro disgybl rhag dod i Dryfan ym mlwyddyn 7. Os yw'r awydd i ddysgu a'r ymroddiad yno, fe wnaiff lwyddo'n anrhydeddus yma.

Mae mwyafrif llethol y gwersi yn Ysgol Tryfan yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyn i'r disgyblion ein cyrraedd, byddwn wedi trafod eu cefndir ieithyddol gyda'r athrawon cynradd ac yn derbyn arweiniad ganddynt am allu'r plant yn yr iaith. Os yw plentyn yn rhugl yn y Gymraeg, yna'r iaith honno a ddefnyddir ar gyfer ei holl wersi - ac eithrio Saesneg fel pwnc.

Ond tydi fy Nghymraeg i ddim digon da i mi allu helpu fy mhentyn.

Mae hyn yn gonsyrn real i rieni nifer sylweddol o'n disgyblion - daw tua 50% o'n disgyblion o gartrefi lle na siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Eu profiad yw nad yw hyn yn gymaint o broblem ag yr ofnent. Mewn rhai achosion e.e. Mathemateg, mae llyfryn Saesneg gennym i gyd-fynd â'r llyfryn Cymraeg. Byddai yn bosib i chi gael copi o'r llyfryn Saesneg fel y gallech gynnig helpu.

Mae Ysgol Tryfan yn opsiwn i bob disgybl, ac mae'n bosib i ni ddarparu cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion sydd angen datblygu eu dealltwriaeth a/ neu hyder yn y Gymraeg. Byddwn wedi trafod hyn gyda'r ysgolion cynradd ymlaen llaw.

Wrth roi pwyslais ar y Gymraeg, byddwn bob amser yn cadw llygaid ar Saesneg y plant ac yn cynllunio defnydd bwriadol o'r iaith honno yn eu pynciau o bryd i'w gilydd. Mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg a Thechnoleg yn benodol, cyflwynir pob term yn ddwyieithog.


Bydd pob llythyr cyffredinol a dderbyniwch yn ddwyieithog a gwnawn yn siŵr eich bod yn deall pob adroddiad am eich plentyn drwy sicrhau y byddant yn ddwyieithog os mai dyna'ch dymuniad. Er mwyn hybu Cymreictod yr ysgol, bydd y staff bob amser yn annog y disgyblion i siarad Cymraeg - yn y dosbarth a hefyd o gwmpas yr ysgol. Fe fyddant bob amser yn barod i drafod â chi yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eich dymuniad wrth gwrs.

Er y pwyslais ar y Gymraeg yma yn Nhryfan, ymfalchiwn yng nghanlyniadau rhagorol ein disgyblion yn yr arholiadau Saesneg, sy'n dangos cryfder dwyieithrwydd ein disgyblion.



Ble mae'r ysgol?

Mae Ysgol Tryfan yn agos i Ffordd Ffriddoedd ym Mangor Uchaf. Mae mewn safle bendigedig, yn wynebu mynyddoedd Eryri. Mae rhan o'r ysgol yn adeilad a oedd yn Ysgol Ramadeg y Genethod, ond mae rhannau eraill yn yr adeiladau yn fwy newydd megis y gampfa, y gweithdai ayb.



A yw'n bosib i mi ymweld â'r ysgol ymlaen llaw?

Byddem yn falch iawn i'ch croesawu i'r ysgol petaech angen unrhyw wybodaeth bellach, a rhoi cyfle i chi weld yr adeiladau a'r adnoddau sydd ar gael. Dylech gysylltu gyda ni i drefnu ymweliad.

Bydd pob disgybl sydd wedi penderfynu dod i Ysgol Tryfan yn cael gwahoddiad i dreulio dyddiau yn yr ysgol yn ystod diwedd Mehefin / dechrau Gorffennaf cyn gorffen yn yr ysgol gynradd, a bydd y mwyafrif eisoes wedi ymweld yn ystod y tymor diwethaf (sef pan oeddent ym mlwyddyn 5).

Sut fydd fy mhlentyn yn cyrraedd yr ysgol?

Os ydych yn byw ymhellach na thair milltir o'r ysgol ac o fewn dalgyrch swyddogol yr ysgol (yn fras Llanfairfechan - Llandygai - Y Felinheli) bydd bws yn cludo'ch plant i'r ysgol yn rhad ac am ddim. Os ydych yn byw ychydig yn agosach - e.e. Maesgeirchen, pen pellaf Penrhos, yna mae bws yn cynnig cludiant rhad. Mae'r trefniadau yn wahanol ar gyfer disgyblion y chweched dosbarth.

Beth yw oriau'r ysgol?

Mae'r ysgol yn agored am 8:30 y.b. a bydd gofyn i ddisgyblion gyrraedd y safle erbyn 8:45 gyda'r diwrnod yn dechrau am 8:55 y.b. â chofrestru a gwasanaeth. Mae 20 munud o egwyl rhwng 10:50 a 11:10 ac mae amser cinio rhwng 12:50 a 1:40. Mae'r diwrnod yn gorffen am 3:20 y.h.

Mae 6 gwrs y dydd, pob un ohonynt yn 50 munud o hyd. Mae 25 awr a 10 munud o wersi mewn wythnos - sy'n cydymffurfio â argymhellion Llywodraeth Cymru. (Nid yw hyn yn cynnwys yr amser ar gyfer gweithgareddau dosbarth e.e. gwasanaeth, cofrestru.)

Sut mae'r plant yn cael eu rhoi at ei gilydd mewn dosbarth ar gyfer y flwyddyn gyntaf?

Mae athrawon yr ysgol yn ymweld â phob ysgol gynradd er mwyn cyfarfod y plant fydd yn dod i Dryfan. Maent yn derbyn gwybodaeth fanwl am y plant sy'n trosglwyddo atom a byddwn yn gwneud pob ymdrech, yn dilyn trafodaeth gyda'r ysgol gynradd, i lunio dosbarthiadau er mwyn sicrhau y bydd pob plentyn yn hapus yma.

Yr ydym weithiau yn gweld nad ydi plentyn yn hapus mewn dosbarth ar ôl iddo/i ddechrau gyda ni. Pan fyddwn yn gweld hyn, byddwn yn trefnu iddo/i gael ei symud i ddosbarth arall.

Ai gallu cymysg sydd gennych yn y flwyddyn gyntaf?

Ie, gallu cymysg a geir yn y mwyafrif o bynciau. Mewn rhai pynciau craidd mae'r plant yn cael eu dosbarthu ar sail eu gallu yn y pwnc ar adeg briodol yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn adolygu cyfansoddiad y setiau yn rheolaidd ac yn symud plant yn ystod y flwyddyn. Mae'r drefn setio yn cael ei mireinio a'i miniogi wrth fynd i fyny'r ysgol.



Mae gan fy mhlentyn rai problemau dysgu. A fydd yn cael cymorth?

Y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yw Mrs Ceri Grisdale Jones. Bydd hi'n ymweld â phob ysgol gynradd a bydd yn trafod anghenion unrhyw blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddwn wedi paratoi ar eu cyfer erbyn dechrau'r flwyddyn a sicrhau gwybodaeth fanwl i bob aelod o staff er lles y disgyblion hynny.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â swyddogion y Cyngor Sir i ymateb i anghenion plant sydd gyda CDU Ysgol/Fforwm ac Awdurdod a sicrheir y byddant yn cael y cymorth ychwanegol angenrheidiol. Yn unol â'r gofynion, mae'r ysgol yn cadw cofrestr o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Pe dymunech weld copi llawn o bolisi'r ysgol ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol, dylech gysylltu â'r ysgol.

Mae plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu hintegreiddio gyda'r gweddill yn y pynciau. Mae'r athrawon sy'n eu haddysgu yn ymwybodol o'u hanghenion ac yn cael arweiniad yn eu cylch gan yr adran Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn monitro eu cynnydd drwy dderbyn gwybodaeth gan yr athrawon pwnc yn rheolaidd.

Mae staff yr ysgol a myfyrwyr o'r Chweched Dosbarth yn cynnig cymorth ychwanegol i blant sydd â thrafferthion gyda darllen a gwaith rhif hefyd.

Bob blwyddyn, mae aelod dynodedig o'r Corff Llywodraethwyr yn gyfrifol am Anghenion Dysgu Ychwanegol.



Mae gan fy mhlentyn dalent arbennig.

Bydd yr ysgol yn gwneud pob dim sy'n bosib er mwyn rhoi'r cyfle iddo/i feithrin a datblygu'r dalent honno - boed hynny yn dalent yn y maes academiaidd neu mewn maes arall. Os ydych am drafod hyn ymhellach yna mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol.

Sut gaf wybod sut mae fy mhlentyn yn gwneud?

Yr ydym yn credu fod gan rieni gyfraniad hollbwysig i'w wneud i ddatblygiad plentyn, ac felly byddwn yn awyddus iawn i ddod i'ch adnabod ac i roi gwybod i chi am beth sy'n digwydd yn yr ysgol.

Byddwn yn defnyddio nifer o ddulliau i asesu eich plentyn, ond byddwn yn dibynnu'n bennaf ar asesu parhaus. Bydd yr athrawon yn asesu pob agwedd o waith plant y dosbarth yn ystod eu dysgu arferol. Yn achlysurol, gwneir defnydd o brofion hefyd. Byddwch yn cael gwybod am berfformiad a chynnydd eich plentyn drwy adroddiadau ffurfiol, dair gwaith yn ystod y flwyddyn (pob tymor).



Cynhaliwn noson lled anffurfiol i rieni blwyddyn 7 ym mis Medi/Hydref er mwyn eich croesawu fel rhieni newydd i'r ysgol. Unwaith yn ystod y flwyddyn byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i mewn i'r ysgol i noson rieni benodol i drafod gwaith eich plentyn gyda'u hathrawon (ym mis Ionawr eleni ar gyfer Blwyddyn 7). Ond wrth gwrs os oes gennych bryderon yn y cyfamser yna ni ddylech oedi rhag cysylltu â ni ar unwaith.

Ond beth pe byddai gennyf bryderon ar adeg arall?

Rydym yn barod iawn i chi gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod cynnydd eich plentyn neu unrhyw bryder arall. Dylid gwneud hyn drwy ffonio'r Pennaeth Blwyddyn (Miss Shiwan Gould i flwyddyn 7). Gallwn hefyd gynnig cyfle i chi dderbyn adroddiad ysgrifenedig dros-dro neu gyfle i chi drafod cynnydd gydag athrawon penodol os oes gennych bryderon ar unrhyw adeg.

Pwy fydd yn cadw llygad ar ddatblygiad fy mhlentyn?

Bydd pob un o'r athrawon yn cadw llygad ar hyn yn eu pwnc. Mae gan bob dosbarth athro dosbarth sydd hefyd yn cadw golwg gyffredinol ar ddatblygiad y plant sydd dan ei ofal. Os bydd athro pwnc yn pryderu am ddatblygiad plentyn, at yr athro dosbarth y troir yn gyntaf. Yn yr un modd, caiff yr athro dosbarth wybod os yw athro yn teimlo fod plentyn yn dangos gwelliant arwyddocaol.

Mae Miss Shiwan Gould yn gyfrifol am arwain y tîm o Athrawon Dosbarth ar gyfer Blwyddyn 7. Hi sydd hefyd yn derbyn y cyfrifoldeb cyffredinol am y plant ac yn eu gosod yn eu dosbarthiadau.

Pan aiff eich plentyn ymlaen drwy'r ysgol, daw athrawon eraill i fod yn gyfrifol amdano/i -

Miss Miriam Jones	Pennaeth Blwyddyn 8
Mrs Sera Fôn Williams	Pennaeth Blwyddyn 9
Mr Gwilym Jones	Pennaeth Blwyddyn 10
Mr Gruff Arfon	Pennaeth Blwyddyn 11
Mr Meurig Jones	Pennaeth y Chweched Dosbarth



Beth am ddatblygiad cymdeithasol a moesol?

Dysgir Dyniaethau, sydd yn canolbwyntio ar ddysgu a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth ac agweddau o'r prif grefyddau eraill, i holl blant yr ysgol. Gwneir hyn fel maes gorfodol, ym mlynnyddoedd 7 i 9 a thrwy bwnc arholiad dewisol. Os yw rhieni yn dymuno eithrio eu plentyn o hyn, gellir gwneud hynny drwy gysylltu â'r ysgol. Mae'r plant hefyd yn cael arweiniad am Addysg Foesol ac Addysg Iechyd yn y gwersi Iechyd a Lles.

Beth am Addysg Rhyw a Pherthnasoedd?

Cyflwynir Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn rhannol drwy'r pynciau ac hefyd drwy fodiwlau penodol sydd yn rhan o wersi Iechyd a Lles. Rhoddir sylw priodol i drafodaethau moesol wrth drafod Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Byddwn yn sicrhau fod yr ymdriniaeth yn addas i oedran y plant.

A ydi pawb yn sefyll arholiad?

Polisi'r ysgol yw y dylai pawb sefyll arholiad os oes unrhyw obaith i lwyddo yn yr arholiad hwnnw. Os oes anghytundeb ynglŷn â hyn neu ynglŷn â'r dewis o bapur y mae disgybl i'w sefyll, bydd yr ysgol yn egluro'i safbwynt yn ofalus ond yn y pen draw, perchir dymuniad y rhieni.



Sut y caiff fy mhlentyn ddysgu am fyd gwaith a chael arweiniad gyrfaoel?

Nod y rhaglen Gyrfaoedd a Byd Gwaith yw helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau, agweddau a medrau fydd yn eu galluogi i ymgymryd ag amrywiaeth o swyddi a sefyllfaoedd fel oedolion. Yr ydym yn manteisio ar bob cyfle sydd yn codi o fewn gwersi a chyfnodau tiwtorial i gyfeirio at fyd gwaith a dealltwriaeth economaidd.

O Flwyddyn 9 ymlaen, rhoddir mwy o sylw i hyn, a daw Gyrfaoedd a Byd Gwaith yn rhan o'r gwersi BAC Cenedlaethol. Fel rhan o'r gwersi yma caiff y disgyblion gyfle i ddod i adnabod a dysgu defnyddio'r Llyfrgell Yrfaoedd a Gyrfa Cymru Ar-lein sy'n awgrymu swyddi addas y gellir ymchwilio iddynt fel canllaw i drafodaeth bellach am yrfaoedd.

Ym Mlwyddyn 10 (ac eto yn y Chweched) bydd pob disgybl yn treulio cyfnod o bum niwrnod ar brofiad gwaith. Rhoddir cyfle i rai disgyblion dderbyn profiad gwaith estynedig ym Mlwyddyn 11.



Mae cynghorwyr Gyrfa Cymru yn ymweld yn rheolaidd â'r ysgol ac yn cyfweld y disgyblion hynaf yn unigol. Byddant hefyd yn cynnal gweithgareddau efo grwpiau o ddisgyblion ac yn trefnu Confensiynau Gyrfaoedd yn achlysurol yn yr ardal ar gyfer disgyblion a'u rhieni. Bydd cynrychiolydd o Gyrfa Cymru yn bresennol yn Nosweithiau Rhieni Bl.9 ac 11. Gall disgyblion a/neu rieni drefnu cyfweiliad gydag un o'r swyddogion hyn, naill ai drwy gysylltu â'r Cyd-gysylltydd Gyrfaoedd yn yr ysgol neu drwy ffonio swyddfa Gyrfa Cymru yn uniongyrchol.

A oes bwlio yn yr ysgol?

Nid yw bwlio yn broblem fawr yn yr ysgol. Mae staff a disgyblion yr ysgol yn derbyn hyfforddiant rheolaidd am fwlio gan ddefnyddio methodoleg KiVa. Mae KiVa yn fethodoleg rhyngwladol llwyddiannus sydd yn mynd i afael â'r achosion bwlio, yn ogystal â delio a digwyddiadau bwlio mewn ffordd adferol, cadarn.

Os yw plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei fwlio, dylid dod â hynny i sylw'r athro dosbarth, neu unrhyw athro arall, ar unwaith fel y gellir ymateb i'r sefyllfa.

Mae KiVa yn cydnabod nad yw pob disgybl yn teimlo yn hyderus i adrodd i aelod felly mae posibil defnyddio'r cod QR yma hefyd i nodi achos sydd angen sylw.

Dim ond wrth i bawb gydweithio fel hyn, y bydd bwlio yn parhau i beidio â bod yn broblem fawr yn Ysgol Tryfan.



Beth yw trefn disgyblaeth yr ysgol?

Os yw ysgol am weithredu er lles yr holl ddisgyblion rhaid wrth drefn glir o ddisgyblaeth a rheolau dealladwy a phendant. Mae derbyn disgyblaeth gan eraill yn ganolog ym mhob cymdeithas ac yn bwysicach na dim yn meithrin hunan ddisgyblaeth. Wrth greu awyrgylch ble mae pawb yn cael eu parchu a ble mae cwrtesi tuag at eraill yn amlwg, mae'r ysgol yn hybu safon uchel o ymddygiad.

Nid oes neb yn cael eu cadw ar ôl oriau ysgol heb i rieni gael gwybod am hynny ddiwrnod ymlaen llaw. Dibynnwn ar gael cefnogaeth rhieni i'r ddisgyblaeth deg a geir yn yr ysgol.

Yn dilyn trosedd ddifrifol, mae gan y Pennaeth yr hawl i wahardd disgybl am nifer penodol o ddyddiau neu'n barhaol. Mae gan y rhieni'r hawl i apelio yn erbyn hyn gerbron y Llywodraethwyr.





Mae fy mhlentyn yn derbyn gwersi offerynnol, a fydd hyn yn parhau?

Bydd, cânt yr un ddarpariaeth ag oedd yn bodoli yn yr ysgol gynradd. Mae tiwtoriaid teithiol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Bydd angen gwneud cyfraniad tuag at gostau'r gwersi hyn.

Beth yw'r polisi o ran talu am bethau eraill?

Polisi'r ysgol (yn fras) yw y byddwn yn codi tâl am:

- ddifrod sy'n deillio o gamymddygiad disgybl;
- deunydd crai ar gyfer pynciau fel Technoleg ble mae'r rhieni yn nodi eu dymuniad i gadw'r deunydd gorffenedig;
- ffioedd arholiad (gan gynnwys ailsefyll) lle na pharatowyd y disgybl ar gyfer yr arholiad gan yr ysgol;
- ffioedd arholiad modylol Uwch neu UG os bydd y disgybl yn ail-sefyll fwy nag un waith.
- ffioedd arholiad ble bu i'r disgybl, heb reswm digonol, fethu cwblhau'r cwrs;
- pob gweithgaredd sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol, oni bai eu bod yn angenrheidiol;
- costau bwyd a llety ar gyfer gweithgareddau preswyl a drefnir gan yr ysgol;
- costau cludiant o'r cartref i leoliad profiad gwaith.

Ar gyfer gweithgareddau addysgol, rydym yn rhoi cymorth gyda chost eitemau angenrheidiol i ddisgyblion sy'n derbyn cinio ysgol am ddim.

Faint o waith cartref fydd gan fy mhlentyn?

Yr ydym yn credu fod gwaith cartref yn bwysig oherwydd ei fod yn rhoi cyfle:

- i ymarfer pethau a ddysgwyd yn y dosbarth;
- i ymestyn eu dysgu;
- i rieni weld beth mae eu plant yn ei wneud yn y dosbarth;
- i baratoi disgyblion ar gyfer gofynion mwy heriol cyrsiau TGAU a Safon Uwch yn uwch yn yr ysgol.

Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd a bydd amllder a her y gwaith cartref yn cynyddu wrth i ddisgyblion ddatblygu yn yr ysgol uwchradd. Bellach defnyddiwn Class Charts ar gyfer cofnodi gwaith cartref ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'r dull hwn yn sicrhau fod tasgau gwaith cartref yn glir, yn ystyrlon ac yn agored i bawb. Gofynnwn yn garedig i chi fel rhieni/gwarcheidwaid sicrhau fod gennych chithau fynediad at Class Charts gan ei fod yn rhoi trosolwg o waith cartref, pwyntiau clod/ymddygiad ac hefyd



unrhyw ohebiaeth gennym fel ysgol. Bydd mwy o fanylion i ddilyn unwaith y bydd eich plentyn wedi cychwyn yn Nhryfan.

Beth os dywed fy mhentyn nad oes ganddo / ganddi fyth waith cartref?

Cysylltwch â'r ysgol ar unwaith i ni gael edrych ar y sefyllfa!

Beth allwn ni fel rhieni ei wneud i helpu'n plentyn?

Yr ydym yn argyhoeddedig mai partneriaeth yw addysg - rhwng y disgybl, yr ysgol a'r rhieni. Mae gan bob un ei gyfraniad ei hun i'w wneud.

Gallwch gymryd diddordeb yng ngwaith eich plentyn drwy ofyn sut mae pethau'n mynd yn yr ysgol a chymryd diddordeb mewn gwaith cartref, yn ogystal â dilyn Class Charts i weld beth sydd gan eich plentyn ar y gweill.

Manteisiwch ar nosweithiau rhieni a chysylltwch â ni ar unwaith os oes rhywbeth sy'n eich poeni neu rhywbeth y teimlwch y dylem ni ei wybod.

Gallwch helpu drwy gefnogi gweithgareddau'r ysgol - bydd yn gyfle i chi ddod i adnabod y staff. Mae hefyd bum cynrychiolydd o'r rhieni ar Gorff Llywodraethol yr ysgol (gweler y rhestr).

Beth yw trefniadau amser cinio?

Nid yw plant blwyddyn 7 - 11 yn cael gadael tir yr ysgol. Dim ond myfyrwyr y 6ed dosbarth sy'n cael gadael tir yr ysgol, a hynny gyda chydysniad eu rhieni. Diogeledd yn amlwg yw ein prif flaenoriaeth fel ysgol.

Mae ffreutur yn yr ysgol a cheir dewis o brydau cynnes gwahanol bob dydd. Gall y plant ddewis yr hyn maent eisiau neu mae byrbrydau ar gael. Mae hefyd dewis ar gyfer llysieuwyr bob dydd.

Mae pryd llawn yn costio £2.80 ar hyn o bryd ond, oherwydd y dewis agored, gall fod yn fwy neu'n llai na hyn. Mae'r ffreutur hefyd ar agor yn ystod egwyl y bore a gellir prynu byrbryd neu ddiod adeg hynny. Mae croeso i blant ddod â brechdanau. Cânt eu bwyta yn y ffreutur. Yn ogystal, mae brecwast ar gael 8:15 – 8:45.

Mae ffreutur Ysgol Tryfan yn ddi-arian, felly nid yw'n bosib talu am fwyd gydag arian parod, ond yn hytrach bydd angen i rieni dalu ar-lein. Byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth am hyn maes o law.



Heblaw'r gwersi, beth arall sydd gan Ysgol Tryfan i'w gynnig i'm plentyn?

Mae plant yn elwa yn arw o weithgareddau sydd yn digwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Un enghraifft ydy bod blwyddyn 7 yn cael cyfle i fwynhau dau ddiwrnod yng Nglan Llyn. Mae eisteddfod yr ysgol yn rhoi cyfle arbennig i blant ddatblygu eu doniau - boed yn gerdd dant neu'n ddawnsio disgo.

Mae gan yr ysgol enw da iawn am berfformiadau cyhoeddus ers blynyddoedd; yn sioeau cerdd, yn eisteddfodau a'r gwasanaeth carolau. Mae Band Jazz Ysgol Tryfan hefyd yn enwog trwy Gymru – a thu hwnt; maent wedi perfformio ym Mharis!

Mae nifer o glybiau yn weithgar yn yr ysgol ac mae llawer iawn o weithgareddau yn digwydd ar gaeau'r ysgol yn ystod yr awr ginio ac ar ôl oriau'r ysgol. Mae timau ac unigolion o Dryfan wedi gwneud yn arbennig o dda mewn chwaraeon - ar raddfa leol, sirol a chenedlaethol.

Pa chwaraeon mae'r ysgol yn eu cynnig?

Mae'r adran Addysg Gorfforol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ac yn cynnig profiadau eang i'r disgyblion i'w hannog i ymwneud â chwaraeon - boed hynny fel rhai sy'n cymryd rhan, yn dyfarnu neu yn gwyllo. Cynigir yr holl gemau tîm traddodiadol yn ogystal â gweithgareddau megis athletau a gymnasteg.

Mae chwaraeon wedi bod yn gryfder yn yr ysgol ers rhai blynyddoedd, a rhoddwn bwyslais ar gyfranogiad disgyblion mewn ymarfer corff o bob math. Mae disgyblion yr ysgol wedi cynrychioli'r Sir a Chymru mewn nifer o weithgareddau.



Beth fydd fy mhlentyn ei angen ar gyfer y diwrnod cyntaf?

Y peth pwysicaf yw'r wisg ysgol. Dyma grynodedb o'r wisg. Am fanylion llawn, gweler ein Polisi Gwisg Ysgol ar ein gwefan.

- trowsus taclus du / sgert ddu o hyd briodol (dim trowsus tracwisg)
- crys polo coch ysgol
- siwmpwr werdd ysgol
- sanau du
- esgidiau neu 'trainers' plaen du - dim Converse (ac eithrio Converse du plaen)



Chwaraeon

Disgwylir i bob disgybl fynychu gwersi Addysg Gorfforol yn gwisgo crys T a siorts / sgort (neu un o'r eitemau cyfatebol eraill yn hytrach na siorts), a trainers addas. Mae'r eitemau ychwanegol o'r wisg addysg gorfforol yn opsiynol.

Pwysig - Ni chaniateir gwisgo clustdlysau na modrwyau o unrhyw fath mewn gwersi Addysg Gorfforol (manylion llawn yn y Polisi Gwisg Ysgol). Yn ychwanegol, ar gyfer D&T (Bwyd) bydd angen ffedog.

Ymholiadau ynglŷn â chinio am ddim / cymorth i brynu gwisg ysgol:

Cysylltwch â Swyddfa Budd-daliadau'r Cyngor – 01286 682689 / CinioamDdim@gwynedd.llyw.cymru

Ble gallaf brynu'r rhain?

All Sewn Up, Bangor (07402 919563) / www.allsewnupbangor.com

Orchid Fashions, Bangor (01248 362506) / www.orchid-schoolshop.Cymru

Teejac Sports, Pentir, Bangor (01248 353 575) / www.teejac.com

**A fydd angen rhywbeth ar gyfer Mathemateg?**

Fe fydd angen cyfrifiannell - ond arhoswch nes iddo/i gyrraedd yr ysgol bydd yr athro/athrawes ar gael i gynghori. Gallwch brynu pethau fel onglydd ymlaen llaw wrth gwrs.

Beth ddylai fy mhlentyn ei wneud os yw'n dod ag offer gwerthfawr i'r ysgol?

Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i ddiogelu eiddo plant. Dylid fodd bynnag cofio rhai rheolau sylfaenol:

- dylid rhoi enw ar bob eiddo e.e. côt, cyfrifiannell;
- dylid rhoi eiddo gwerthfawr i'r athro yn ystod gwersi Addysg Gorfforol;
- ni ddylid cario symiau mawr o arian o gwmpas yr ysgol - os oes gan ddisgybl swm sylweddol o arian, dylai ei roi i'r Swyddfa i'w gadw ar ddechrau'r diwrnod.

Ni all yr ysgol gymryd cyfrifoldeb am eiddo a gedwir yn yr ysgol dros nos.



Ni ddylid defnyddio ffonau symudol ar goridorau, nac mewn gwersi heb ganiatad yr athro. Mae'n bosib i unrhyw ddisgybl sydd angen ffonio mewn argyfwng ddefnyddio ffôn y swyddfa. Nid ydym yn gwrthwynebu i ddisgyblion ddod â'u ffonau i'r ysgol, ein disgwiliad yw fod y ffôn wedi'i ddiffodd ac yn y bag.



Beth fydd angen i mi ei wneud os bydd fy mhlentyn yn absennol?

Rhodwn bwyslais mawr ar gael eglurhad am bob absenoldeb. Mae hyn yn ein cynorthwyo i rwystro triwantiaeth. Byddwn yn edrych yn ofalus ar y cofrestrau am 9:30 y.b. a 2.00 y.p. ac yna'n ffonio rhai cartrefi i holi am absenoldebau. Mae felly yn ddefnyddiol iawn pe byddech yn ffonio'r ysgol (neu ebostio swyddfa@tryfan.ysgoliongwynedd.cymru) yn fuan i ddweud wrthym os y bydd eich mab/merch yn absennol gan hefyd egluro beth yw'r salwch. Os nad ydym wedi cysylltu â chi, mae angen cyflwyno llythyr i egluro'r absenoldeb os gwelwch yn dda. Bydd angen llythyr hefyd ar gyfer absenoldeb yn ystod y dydd e.e. apwyntiad gyda'r deintydd. Gydag absenoldeb tymor hir neu absenoldeb o arholiad allanol, byddwn eisieu tystysgrif feddygol. Bydd gwaith ar gael i'r disgybl trwy gysylltu gyda'r Pennaeth Blwyddyn.

Ni ddylid trefnu gwyliau yn ystod y tymor. Os oes amgylchiadau arbennig iawn, dylid trafod hyn gyda'r Pennaeth ymlaen llaw.

Mae gan fy mhlentyn broblem feddygol.

Mae'n hanfodol eich bod yn rhoi gwybod i'r ysgol os oes problem feddygol a allai effeithio ar eich plentyn tra bydd yn yr ysgol e.e. epilepsi, alergedd, asthma. Yn yr un modd dylech gysylltu â'r Ysgol i nodi os yw cyflwr meddygol yn newid yn ystod y flwyddyn. Os oes Cynllun Gofal lechyd unigol gan eich plentyn, yna mae'n allweddol eich bod wedi danfon copi o hwn i'r ysgol.

Dylai'r cartref gysylltu â'r ysgol ym mhob achos pan fo disgybl angen cymryd cyffuriau fel moddion yn ystod oriau'r ysgol. Ni roddir moddion i unrhyw ddisgybl yn yr ysgol oni bai bod trefniant wedi ei wneud gyda rhiant. Dyletswydd y cartref yw sicrhau fod unrhyw feddyginiaeth personol sy'n cael ei gadw yn yr ysgol o fewn ei ddyddiad defnydd.

Beth os bydd fy mhlentyn yn sâl yn ystod y dydd yn yr ysgol?

Bydd cyfle i'ch plentyn eistedd wrth swyddfa'r ysgol er mwyn i ni allu cadw golwg, ond os byddai yn well i'r disgybl fod gartref, byddwn yn eich ffonio i weld os gellir gwneud trefniadau i'w gael / chael gartref. Ni fyddwn byth yn caniatáu i blentyn fynd adref oni bai fod trefniadau cludiant addas a'n bod yn gwybod fod rhywun yno i'w dderbyn.



Beth yw polisi lechyd a Diogelwch yr ysgol?

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu'r Polisi lechyd a Diogelwch a argymhellwyd gan yr Awdurdod Addysg. Mae iechyd a diogelwch ein plant a'n staff yn hollbwysig i ni a gweithredwn ar yr argymhellion a gynigir ar gyfer gweithio mewn gweithdai a labordai ac wrth gymryd rhan mewn chwaraeon a theithiau addysgol. O gysylltu â'r ysgol gellir gweld y ddogfen bolisi.

Un agwedd o'r polisi yw y dylai pob ymwelydd â'r ysgol alw yn swyddfa'r ysgol wrth gyrraedd.

**I ble'r aeth y disgyblion hynny a adawodd yr ysgol y llynedd?**

Llwybrau disgyblion ar ddiwedd y flwyddyn academaidd ddiwethaf - Haf 2024		
	Diwedd B11	Diwedd B13
Yn parhau mewn addysg llawn amser mewn:		
Ysgol	34	0
Coleg Addysg Bellach neu hyfforddiant amgen	32	4
Addysg Uwch	0	30
Cyflogedig, Prentisiaeth neu 'flwyddyn allan' ôl 18	5	3
Yn hysbys nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth	2	0
Cyfanswm yn y garfan	73	37

Calendr Ysgol ar gyfer 2025-26

Tymor yr Hydref 2025: 1 Medi 2025 – 19 Rhagfyr 2025
 Tymor y Gwanwyn 2026: 5 Ionawr 2026 – 27 Mawrth 2026
 Tymor yr Haf 2026: 13 Ebrill 2026 – 20 Gorffennaf 2026

Dyddiadau Gwyliau 2025-2026

27 – 31 Hydref 2025 - Hanner Tymor
 22 Rhagfyr 2025 – 2 Ionawr 2026 - Gwyliau'r Nadolig
 16 – 20 Chwefror 2026 - Hanner Tymor
 30 Mawrth – 10 Ebrill 2026 - Gwyliau'r Pasg
 4 Mai 2026 - Calan Mai
 25 – 29 Mai 2026 - Hanner Tymor
 21 Gorffennaf – 28 Awst 2026 - Gwyliau'r Haf



Beth yw polisi derbyn yr ysgol?

“Rhif safonol” yr Awdurdod Addysg ar gyfer yr ysgol yw 100 ar gyfer pob blwyddyn o 7-11. Bydd angen i bob cais mynediad fynd drwy Cyngor Gwynedd – mynediadysgol@gwynedd.llyw.cymru / 01286 679904

Mae gen i gwyn yn erbyn yr ysgol. Gyda phwy y dylwn ei thrafod?

Dylid cyfeirio pob cwyn yn y lle cyntaf at y Pennaeth. Gellir gwneud hynny yn bersonol, drwy lythyr neu dros y ffôn. Bydd yntau yn edrych ar y sefyllfa a gallwch ddisgwyl ymateb ymhen pum niwrnod gwaith ar yr hwyaf. Os nad ydych yn fodlon â hyn, gallwch anfon eich cwyn yn uniongyrchol at Gadeirydd y Llywodraethwyr - d/o Miss Bethan Thomas, Clerc i'r Llywodraethwyr, Ysgol Tryfan.

Mae'r ysgol yn dilyn gweithdrefnau delio gyda chwynion ffurfiol sydd yn cydymffurfio â gofynion newydd Llywodraeth Cymru. Gellir cael copi o'r gweithdrefnau hyn drwy gysylltu'n uniongyrchol gyda'r ysgol.

Cred yr ysgol mewn darparu'r addysg orau i bob disgybl yn ddiwahân. Mae hyn yn golygu polisi pendant o gyfle cyfartal - heb gymryd unrhyw sylw o ryw, anabled, cefndir, crefydd na thras. Os oes pryder nad yw hyn yn cael ei weithredu, dylid cysylltu â'r Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr. Mr Paul Harris, y Dirprwy Bennaeth, yw'r aelod o staff sydd â chyfrifoldeb am hyrwyddo cynnydd addysgiadol y disgyblion sydd mewn gofal. Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Cydraddoldeb Hiliol; gellir cael copi o'r polisi hwn drwy gysylltu â'r ysgol.

PWYSIG: Credwn yn gryf mewn dathlu llwyddiant ein disgyblion yn Ysgol Tryfan ac o bryd i'w gilydd, byddwn yn tynnu lluniau o'r plant tra'u bod wrth eu gwaith ac mae'n bosib y defnyddir y delweddau hyn i bwrpas hysbysebu neu ar gyfer safwe'r ysgol ac ar y cyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter). **Dylai rhieni roi gwybod i'r ysgol yn ysgrifenedig os nad ydynt yn fodlon i hyn gael ei wneud.**



Amddiffyn a Diogelu Plant

Trefniadau Amddiffyn a Diogelu Plant yw prif flaenoriaeth yr ysgol ac mae ei holl staff a'r Llywodraethwyr yn ymwybodol o hyn.

Mae Polisi Amddiffyn Plant Ysgol Tryfan yn cydymffurfio â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru.

Prif Berson Dynodedig Diogelu Plant yn yr ysgol hon yw:

Mr Paul Harris, Dirprwy Bennaeth

Y 3 Dirprwy Berson Dynodedig Diogelu Plant yn yr ysgol hon yw:

Mr Bleddyn Williams

Mrs Ceri Grisdale Jones

Mr Dylan Morgan

Y Llywodraethwr Ddynodedig yn yr ysgol yw:

Mr Dyfan Siôn

Y Swyddog Amddiffyn Plant Arweiniol Dynodedig yn yr Awdurdod Lleol yw:

Bethan Helen Jones

Rhif ffôn – 07977 504344

Ceir copi o Bolisi Amddiffyn Plant yr ysgol a chanllawiau i rieni ar wefan yr ysgol:

<http://www.ysgoltryfan.org/rhieni.html>



Staffio Ysgol Tryfan Medi 2024**Staff Dysgu**

Geraint Owen Jones	Pennaeth
Mari James	Dirprwy Bennaeth
Paul Harris	Dirprwy Bennaeth
Cheryl Roberts	Pennaeth Cynorthwyol / Cymraeg
Gruff Arfon	Addysg Gorfforol a Phennaeth Blwyddyn 11
Cai Fôn Davies	Cymraeg (Myfyriwr Prifysgol Agored)
Ffion Davies	Dyniaethau/Cerdd/Celf (Cynllun Trosi Cynradd/Uwchradd LLC)
Sioned Davies	Pennaeth Saesneg
Siôn Edwards	Pennaeth Dylunio a Thechnoleg a Phennaeth TGCh
Heledd Elfyn Thirsk	Cydlynnydd BAC CA4 a 5 a Phennaeth Drama
Hefin Evans	Pennaeth Cerddoriaeth
Shiwan Gould	Pennaeth Addysg Gorfforol a Phennaeth Blwyddyn 7
Gareth Griffiths	Pennaeth Ffiseg / Pennaeth Gwyddoniaeth ar y Cyd
Angharad Hassall	Pennaeth Bwyd a Maeth
Ceri Grisdale Jones	Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
Cheryl Jones	Saesneg
Eifion Jones	Mathemateg a Phennaeth Iechyd a Lles
Gwilym Jones	Gwyddoniaeth, Busnes, Pennaeth Blwyddyn 10 a Chyd-gysylltydd Gyrfaoedd
Heledd Medi Jones	Pennaeth Addysg Grefyddol
Kim Jones	Saesneg
Meurig Jones	Pennaeth Dyniaethau a Phennaeth 6ed Dosbarth
Miriam Jones	Mathemateg, Arweinydd Rhifedd a Phennaeth Blwyddyn 8
Nia Griffiths Jones	Pennaeth Cemeg / Pennaeth Gwyddoniaeth ar y Cyd
Alan Jukes	Pennaeth Mathemateg
Alaw Haf Lewis	Pennaeth Celf / TGCh
Siriol Llwyd	Pennaeth Sbaeneg
Gethin Morgan	Pennaeth Bioleg / Gwyddoniaeth
Jeni Lyn Morris	Pennaeth y Gymraeg ac Arweinydd Cymhwysedd Digidol
Sali Parry	Gwyddoniaeth (dros dro)
Tracey Skillin	Saesneg / Athrawes ADY
Ruth Thomas	Addysg Gorfforol ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Bleddyn Williams	Arweinydd Cynhwysiad a Phennaeth Daearyddiaeth
Nia Williams	Saesneg a Chyflenwi
Sera Fôn Williams	Mathemateg, Pennaeth Cymdeithaseg a Phennaeth Blwyddyn 9
Sian Williams	Cymraeg (Ail yn yr Adran)
Erin Ynyr	Cymraeg

Staff Cefnogi Disgyblion

Tomos Efans	Cymhorthydd (dros dro)
Sara Gruffudd	Swyddog Cynhwysiad / Cefnogi Disgyblion
Billie Nel Jones	Cymhorthydd
Dylan Morgan	Swyddog Cynhwysiad
Bethan Fôn Owen	Cymhorthydd
Gwen Lloyd Roberts	Cymhorthydd
Rebecca Rumbold	Cymhorthydd
Beverley Taylor-Morgan	Cymhorthydd
Ceirion Fôn Williams	Cymhorthydd



Awel Ellis
Rhianna Roberts

Cymhorthydd Cyflenwi
Cymhorthydd Cyflenwi

Staff Ategol

Elaine Edwards
Meryl Wyn Jones
Rhiain Julio
Beverley Owen
Dafydd Owen
Cai Smith
Bethan Thomas
Nest Williams

Cymhorthydd Gweinyddol (dros dro)
Swyddog Data
Technegydd Gwyddoniaeth
Cymhorthydd Gweinyddol
Gofalwr
Technegydd TGCh (dros dro)
Rheolwr Busnes a Chyllid
Ysgrifenyddes

Swyddi eraill

Mathew Baston

Swyddog Rygbi

Corff Llywodraethol 2024-25

Cadeirydd: Mr Carl Mather

Is-gadeirydd: Mrs Janet Abas

Enw	Categori	Swyddogaeth
Mr Dyfan Siôn	Rhieni	Llywodraethwr Dynodedig Amddiffyn Plant
Mr Aled Hughes	Rhieni	
Mrs Sian Eleri Morgan	Rhieni	Llywodraethwraig Ddynodedig Hyrwyddo'r Gymraeg
Gwagle - i'w gadarnhau Rhagfyr 2024	Rhieni	
Gwagle - i'w gadarnhau Rhagfyr 2024	Rhieni	
Cyng. Menna Baines	Awdurdod Addysg	
Mrs Jên Dafydd	Awdurdod Addysg	
Yr Athro Jason Walford-Davies	Awdurdod Addysg	
Dr Catrin Elis Williams	Awdurdod Addysg	Llywodraethwraig Ddynodedig ADY
Mrs Janet Abas	Cymunedol	Llywodraethwraig Ddynodedig Cydraddoldeb
Mr Wil Parry	Cymunedol	
Mrs Lowri Elis	Cymunedol	
Mr Carl Mather	Cymunedol	Llywodraethwr Dynodedig Iechyd a Dioglewch
Mrs Meryl Jones	Staff Ategol	
Mrs Nia Griffiths Jones	Athrawon	
Mr Alan Jukes	Athrawon	
Dr Geraint Owen Jones	Pennaeth	
Miss Bethan Thomas	Clerc	

Disgyblion Lywodraethwyr (2024-25)

Annest Griffiths Mawhinney a Tesni Owen



CEFNOGI, YSBRYDOLI - YN DEULU

- Mae Ysgol Tryfan yn DEULU ac mae holl aelodau'r teulu'n gweithio tuag at yr un amcan sef creu amgylchedd hapus a diogel sy'n cefnogi ac yn ysbrydoli.
- Rhoddwn bwyslais ar bwysigrwydd pob un disgybl unigol o fewn yr ysgol gan arddel disgwiliadau uchel o ran safonau ac ymdrech. Manteisiwn ar bob cyfle i ddatblygu hunan barch a pharch at eraill, lles personol, hyder a dyfalbarhad gan arfogi ein plant i gyflawni a llwyddo mewn bywyd.
- Ceisiwn ddarparu cwricwlwm ysgol sy'n hygyrch, cynhwysol a theg i bawb. Cynigiwn brofiadau cyfoethog mewn ffyrdd hwyliog ac ysbrydoledig gyda chyfleoedd ar gyfer arloesi, creadigrwydd, meddwl yn feirniadol a dysgu o gamgymeriadau. Rhoddwn amodau ac adnoddau i ddysgwyr ddysgu drwy amrywiaeth o ddulliau gan ddatblygu annibyniaeth, sgiliau digidol a'r gallu i weithio'n effeithiol fel tîm.
- Ymfalchiwn yn ein cyfraniad i'n bro a'i diwylliant ac i'r byd eang. Dathlwn ein Cymreictod a'n gallu i ddatblygu'n ddinasyddion gwybodus, dwyieithog hyderus.

